O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 1071 (Cy. 256)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Ffordd Ymadael tua'r Gorllewin i Ystad Ddiwydiannol Rasa, Rasa, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed *7 Tachwedd 2016*

Yn dod i rym *14 Tachwedd 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn o Gefnffordd Castell-nedd - Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Tachwedd 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Ffordd Ymadael tua'r Gorllewin i Ystad Ddiwydiannol Rasa, Rasa, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 14 Tachwedd 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n arwain o'r gefnffordd i Ystad

Ddiwydiannol Rasa yn Rasa ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Tachwedd 2016

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.